# Adrodiad Penderfyniad

## 1.0 Crynodeb

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r aelodau am y penderfyniad sydd ei angen mewn perthynas â chyhoeddi rhybudd statudol ar gyfer:

- Cau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ar 31 Awst 2016,
- Cau Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016,
- Esgobaeth Llanelwy i agor ysgol gynradd Wirfoddol Reoledig, yr Eglwys yng Nghymru, dwy ffrwd Categori 2 newydd o 1 Medi 2016.

1.2 Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Medi cytunodd y Cabinet y gallem ymgynghori â'r Esgobaeth, corff llywodraethu'r 2 ysgol, Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn a Llywodraeth Cymru o ran addasu'r cynnig - i newid y dyddiad gweithredu; y ddwy ysgol i gau ar 31 Awst 2017 yn hytrach na 2016, a'r ysgol ardal newydd i agor o 1 Medi 2017 yn hytrach na 2016.

1.3 Rydym wedi ymgynghori ag Esgobaeth Llanelwy fel cynigwyr ar y cyd i'r cynnig. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan bod yn rhaid hefyd ymgynghori gyda chyrff llywodraethu Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd diweddariad llafar yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod.

1.4 Mae'r Cyngor wedi ystyried nifer o ffactorau mewn perthynas â'r addasiad. Mynegwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol dros y cyfnod amser byddai'r ysgol ardal yn bodoli mewn dau safle. Yn ogystal, gallai oedi posibl i'r amserlen ar gyfer gweithredu o bosibl gynorthwyo gyda darparu'r newidiadau arweinyddiaeth a rheoli sydd eu hangen ar gyfer ysgol newydd. Ystyrir y byddai oedi gyda gweithredu o 12 mis yn rhoi mwy o gyfnod cysoni i'r ysgol. Byddai hyn hefyd â'r potensial i ddod â'r amserlen ar gyfer gweithredu yn unol â chynigion eraill yn ardal Rhuthun.

1.5 Ni fydd yr addasiad yn arwain at unrhyw newid i'r canlyniad terfynol. Fodd bynnag, bydd yn lleihau'r amser y bydd yr ysgol ardal newydd yn gweithredu ar 2 safle ar wahân, a all o safbwynt addysgol fod ond o fudd i'r plant. Bydd yr addasiad hwn hefyd yn caniatáu rhagor o amser ar gyfer y 2 ysgol i weithio'n agos gyda'i gilydd cyn uno a gallai arwain at yr ysgol ardal fod ar 2 safle ar wahân am gyfnod byrrach o amser, h.y. pe bai'r adeilad newydd yn barod ar gyfer Ionawr 2018 dim ond 1 tymor fyddai'r cyfnod.

1.6 Argymhellir bod y cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ei weithredu gyda'r addasiad arfaethedig. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau darpariaeth effeithiol o leoedd cynradd o fewn ardal Rhuthun.

## 2.0 Cefndir y Cynnig

2.1 Cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych y Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg ym mis Ionawr 2009 i ddarparu llwyfan sy'n sail i adolygu'r ddarpariaeth ysgol bresennol.

2.2 Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r radd flaenaf i holl blant a phobl ifanc yn y sir. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor wedi cytuno bod ‘moderneiddio'r ddarpariaeth addysg’ yn flaenoriaeth gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd cael adeiladau ysgol, amgylcheddau dysgu ac adnoddau sy'n diwallu anghenion Cymru yn yr 21ain ganrif.

2.3 Amcanion yr adolygiad oedd:
- Sicrhau cynaladwyedd darpariaeth addysg o’r radd flaenaf
- Gwella safon adeiladau ysgolion a chyfleusterau;
- Darparu’r nifer cywir o leoedd, o’r math cywir yn y lleoliad cywir;

## 3.0 Adolygiad Rhuthun – Ymgynghori Anffurfiol

3.1 Ym mis Tachwedd 2012, cymeradwyodd Cabinet Sir Ddinbych y dylid dechrau adolygiad darpariaeth ysgol gynradd yn ardal Rhuthun. Roedd yr adolygiad yn cynnwys un ar ddeg o ysgolion cynradd yn yr ardal:-
- Ysgol Borthyn
- Ysgol Bro Famau (Llanarmon yn Iâl a Llanferres)
- Ysgol Clocaenog
- Ysgol Cyffylliog
- Ysgol Gellifor
- Ysgol Llanbedr
- Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
- Ysgol Pen Barras
- Ysgol Pentrecelyn
- Ysgol Rhewl
- Ysgol Rhos Street
- Ystyriwyd Ysgol Bryn Clwyd hefyd ar gais Corff Llywodraethu Ffederal Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor.

3.2 Roedd y ddogfen ymgynghori anffurfiol yn amlygu nifer o faterion a oedd angen mynd i'r afael â nhw i gyflawni cynaliadwyedd hirdymor. Roedd y rhain yn cynnwys:

a. Cynaliadwyedd Ysgolion a Darpariaeth o Ansawdd Uchel
b. Lleoedd Dros Ben
c. Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau ysgolion (gan gynnwys defnyddio ystafelloedd symudol)
d. Recriwtio Penaethiaid
e. Y galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg

3.3 Yn dilyn ystyriaeth ofalus o’r materion a godwyd yn ystod y cam Ymgynghori Anffurfiol, cymeradwywyd y chwe chynnig canlynol gan y Cabinet. Y rhain oedd:
- Creu Ysgol Ardal newydd i wasanaethu cymunedau Clocaenog a Chyffylliog.

DRAFT

- Cau Ysgol Llanbedr a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn amodol ar ddewis y rhieni.
- Dichonoldeb manwl ardal tref Rhuthun.
- Ffederasiwn Arfaethedig Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn.
- Cefnogaeth ar gyfer Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor.
- Cadw Ysgol Bro Famau.

## 4.0 Ymgynghoriad Ffurfiol

4.1 Ym mis Ionawr 2015, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych argymhellion i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn o 31 Awst 2016 a'r Eglwys yng Nghymru i sefydlu ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016.

4.2 Dechreuodd cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar 3 Chwefror 2015 a daeth i ben ar 16 Mawrth 2015. Cafodd dogfen ymgynghori ffurfiol (Atodiad 5) ei chyhoeddi yn rhoi manylion am y cynnig.

4.3 Yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol, ymgynghorwyd â rhieni, staff, llywodraethwyr, plant a phobl ifanc ynghyd ag ymgyngoreion statudol eraill. Casglwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol yn yr Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol (Atodiad 6) a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 2 Mehefin, 2015.

4.4 Yn y cyfarfod hwn, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych argymhelliad i gyhoeddi rhybudd statudol i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016 ac i Esgobaeth Llanelwy agor ysgol gynradd Wirfoddol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru dwy ffrwd Categori 2 newydd o 1 Medi 2016.

## 5.0 Rhybudd Statudol

5.1 Cyhoeddwyd Rhybudd Statudol ar 18 Mehefin 2015. Mae copi ynghlwm yn Atodiad 7. Daeth y cyfnod rhybudd i ben ar 15 Gorffennaf 2015.

5.2 Gyda'i gilydd cyflwynwyd 30 o wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Mae'r pwyntiau a godwyd a'r ymatebion a ddarparwyd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau. (Atodiad 3)

## 6.0 Pennu Cynigion Trefniadaeth Ysgolion


6.1 Wrth gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion, mae'n rhaid i gyrff perthnasol:

- ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;
- sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i gynigion i gau ysgol sy'n ysgol fach);
- sicrhau bod y cynnig wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod y rhybudd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol; ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori;
- ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebiad ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion;

## 7.0 Yr Ysgolion

### 7.1 **Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd**

Lleolir Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yng nghanol pentref Llanfair Dyffryn Clwyd ac mae’n gwasanaethu ystod oedran o 4 - 11 oed. Dynodir yr ysgol yn ysgol gynradd Dwy Ffrwd - Categori 2 - dyma lle mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr gyda rhieni/disgyblion yn dewis naill ai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bennaf neu gyfrwng Saesneg yn bennaf. Mae'n ysgol wirfoddol a reolir sy'n gwasanaethu pentrefi Llanfair Dyffryn Clwyd, Pwllglas a’r ardal gyfagos yn bennaf. Dangosir hyn yn y diagram isod sy'n dangos y lleoliad cod post ar gyfer cyfeiriad cartref pob disgybl.





Ym mis Medi 2014 roedd gan Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd 92 disgybl llawn amser, ac mae 13 disgybl rhan amser yn y dosbarth meithrin ar hyn o bryd.

Mae rhagolwg y cyngor o gofrestrau disgyblion yn seiliedig ar ddata Ionawr 2014 yn awgrymu y bydd cynnydd cyson yn digwydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol fel y dangosir isod:

| Nifer y disgyblion Amser Llawn a ragwelir – CYBLD mis Ionawr 2014 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| 82 | 80 | 83 | 87 | 87 |

7.2 **Ysgol Pentrecelyn**

Lleolir Ysgol Pentrecelyn ar gyrion pentref Pentrecelyn ac mae'n gwasanaethu'r ystod oedran 4-11. Ar hyn o bryd, dynodwyd yr ysgol yn un Categori 1 - ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg lle mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn profi'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol yn gwasanaethu plant o Graigfechan, Pentrecelyn, Llanelidan a'r ardaloedd cyfagos yn bennaf. Dangosir hyn yn y diagram isod sy'n dangos y lleoliad cod post ar gyfer cyfeiriad cartref pob disgybl.




Ym mis Medi 2014 roedd gan Ysgol Pentrecelyn 35 disgybl llawn amser, ac mae 12 disgybl rhan amser yn y dosbarth meithrin ar hyn o bryd.

Mae rhagolwg y cyngor o gofrestrau disgyblion yn y dyfodol yn awgrymu y bydd cynnydd yn digwydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol fel y dangosir isod:

| Nifer y disgyblion Amser Llawn a Ragwelir – CYBLD mis Ionawr 2014 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| 37 | 40 | 40 | 42 | 41 |

## 8.0 Ffactorai Dylanwadol

### Safonau ac Ansawdd mewn Addysg

8.1 Barn Estyn yw y byddai’r cynnig hwn yn debygol o gynnal y safonau addysg gyfredol yn ardal y ddarpariaeth o leiaf. Yn ogystal, mae Estyn wedi nodi;

- Ar gyfer y tymor hir, mae'r awdurdod yn honni’n briodol byddai gweithio mewn partneriaeth rhwng y ddwy ysgol yn darparu mwy o sefydlogrwydd. Mae'n honni y byddai'r cynnig hwn ffurfioli'r cydweithio rhwng yr ysgolion ac yn darparu sylfaen ar gyfer symud tuag at un ysgol mewn adeilad modern, pwrpasol.

- Mae'r awdurdod wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar ansawdd y canlyniadau a'r ddarpariaeth yn ogystal ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Ystyrir bod y cynnig â manteision pendant. Mae'r cynnig yn rhagweld mwy o gyfleoedd ar gyfer y ddwy ysgol i weithio gyda'i gilydd i wella arbenigedd staff a fyddai'n arwain at godi safonau.

8.2 Safonau addysgol yn y ddwy ysgol dros y pum blynedd diwethaf yn cael eu dangos isod.

| | % yn cyflawni Lefel 4+ yng Nghyfnod Allweddol 2 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** |
| **Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd** | 88.9% | 91.7% | 100.0% | 94.1% | 93.3% |
| **Ysgol Pentrecelyn** | 66.7% | * | * | * | 80.0% |
| **Sir Ddinbych** | 78.1% | 82.3% | 83.5% | 86.0% | 86.6% |
| **Cyfartaledd Cymru** | 78.2% | 80.0% | 88.6% | 84.3% | 86.1% |

* Fodd bynnag, o ganlyniad i gohortau bach iawn ym mhob blwyddyn, nid oes modd gwneud cymhariaeth ystyrlon gyda chyfartaleddau lleol

8.3 Mae'r Awdurdod Lleol yn credu byddai ansawdd y deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth o leiaf yn cynnal y ddarpariaeth.

i. **Canlyniadau** - Safonau a lles - Rhagwelir yn ystod y cyfnod uno y bydd y Corff Llywodraethol Dros Dro yn adolygu'r cwricwlwm i'w fabwysiadu ar gyfer yr ysgol newydd a byddai’r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethol Dros Dro i sicrhau bod cryfderau'r ddwy ysgol yn cael eu datblygu, ynghyd â chyngor allanol er mwyn sicrhau bod y fframwaith ar gyfer safonau gwell yn ei lle ar gyfer yr ysgol newydd.

Mae'r cynnig yn rhagweld mwy o gyfleoedd ar gyfer y ddwy ysgol i weithio gyda'i gilydd i wella arbenigedd staff a fyddai'n arwain at godi safonau.

ii. **Darpariaeth** - Profiadau dysgu, addysgu, cefnogaeth gofal a chanllawiau, yr amgylchedd ddysgu – Gallai’r cynnig ganiatáu i gynnal darpariaeth oherwydd rhagwelir y bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn ystod y cyfnod uno yn cael eu haddysgu yn eu hamgylchedd dysgu cyfredol gyda'r staff

presennol. Bydd ysgol ardal yn darparu lleoedd addysgu ychwanegol ar gyfer grwpiau llai o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol; gan gynnwys mwy o leoedd ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.

Mae ysgolion bach yn gyfyngedig o ran eu gallu i ymateb i amrywiadau mewn niferoedd disgyblion gan gapasiti strwythurol ac addysgu eu hysgolion. Bydd ysgol ardal fwy yn gallu ymateb i amrywiadau o ran nifer y disgyblion sy'n un o nodweddion ysgolion gwledig.

iii. **Arweinyddiaeth a rheolaeth** - arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau. Gallai'r cynnig arwain at welliannau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth. Dylai'r cyfnod uno ddarparu sefydlogrwydd o ran rheoli adnoddau, gwella gwaith partneriaeth a rhoi cyfle i gryfhau arweinyddiaeth. Bydd mwy o gyfleoedd i'r athrawon i rannu arfer da a datblygu sgiliau arwain yn ystod y cyfnod uno.

8.4 Dywedodd Estyn bod "y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal hon o Sir Ddinbych ac yn seiliedig ar y ddarpariaeth bresennol, mae'r cynnig yn rhesymol yn honni y gallai cynnal y status quo ddarparu mwy o risgiau nag unrhyw gynigion ar gyfer newid." O ran yr iaith Gymraeg roeddent yn cytuno bod y cynnig yn cydnabod yn briodol y canfyddiad posib y byddai'r iaith ac ethos Gymraeg yn cael eu heffeithio'n negyddol. Mae'n pwysleisio rôl hanfodol y Corff Llywodraethol newydd a Chyngor Sir Ddinbych o ran sicrhau bod yr ethos Cymreig cryf cyfredol yn cael ei gadw.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**

8.5 Os bydd y Cynnig Presennol yn cael ei gymeradwyo bydd y ddwy ysgol bresennol yn dod yn un ysgol newydd ond bydd y disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu ar y safleoedd presennol. Y newid mwyaf arwyddocaol i ddisgybl fydd y newid yn y safle ac athrawon. Yn unol â hynny, bydd unrhyw ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd ar hyn o bryd yn mynychu'r ysgolion yn parhau i dderbyn yr un addysg a chefnogaeth, ond gallai'r amgylchedd newid. Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch a chynorthwyo disgyblion ag unrhyw drosglwyddiad.

**Iaith Darparu**

8.6 Cafod y penderfyniad gan y Cabinet ar 2 Mehefin 2015 i gyhoeddi Rhybudd Statudol ei alw i mewn ar gyfer archwilio pellach ar 11 Mehefin 2015. Cytunwyd byddai'r effaith ar y disgyblion sy'n dewis gadael naill ysgol yn cael ei fonitro'n agos a bod effaith cau Ysgol Pentrecelyn ar y ddwy ysgol Categori 1 arall yn yr ardal yn hylaw.

8.7 Roedd y rhan fwyaf o wrthwynebiadau i gynigion Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar y sail categoreiddio iaith. Mae gwrthwynebwyr i'r cynnig wedi dweud o ran yr iaith Gymraeg fod yna wahaniaeth rhwng ysgol Categori 1 a Chategori 2. Mae gwrthwynebwyr wedi dweud bod mwy i addysg cyfrwng Cymraeg na chyrhaeddiad disgyblion yn unig – mae ethos, rheolaeth, iaith weinyddol a chymdeithasol yr un mor bwysig.

DRAFT

8.8 Er mwyn i ysgol i weithredu fel ysgol Categori 2 mae angen iddynt allu cyflawni canlyniadau Categori 1 ac yn sicrhau bod yr ethos yn cael ei gyflwyno yn y ddwy iaith. Cyfrifoldeb Corff Llywodraethol yr ysgol fydd pwysigrwydd yr iaith ac ethos Gymraeg yn y pen draw, bydd angen iddynt sicrhau nad yw'r cynnig Cymraeg yn yr ysgol yn gwanhau.

8.9 Mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg ar y categorïau a'r 3 maen prawf o ran categoreiddio – Cwricwlwm, Iaith yr ysgol a'r Deilliannau:

> Mae ysgolion cynradd **Categori 1** yn 'ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg' – iaith darparu'r cwricwlwm yw Cymraeg, a hefyd yr iaith gyfathrebu o ddydd i ddydd gyda'r disgyblion. Cynhelir asesiadau disgyblion hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r disgwyliad yw bod disgyblion yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Bydd disgyblion hefyd wedi cyrraedd safon yn Saesneg sy'n cyfateb i ddisgyblion mewn ysgolion Saesneg prif gyfrwng.
>
> Mae ysgolion cynradd **Categori 2** yn ysgolion cynradd dwy ffrwd – mae'r ysgolion hyn yn darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â chyfrwng Saesneg. Yn dibynnu ar ddewis rhieni, caiff y cwricwlwm ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Os ydynt yn dewis cyfrwng Cymraeg, bydd iaith cyflwyno addysg y disgybl, iaith cyfathrebu gyda'r disgybl ac asesiadau addysgol yn Gymraeg - yr un fath ag ar gyfer ysgol Categori 1. Os yw'r rhieni yn dewis i'w plentyn gael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, bydd y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn Saesneg, iaith cyfathrebu gyda'r disgybl ac unrhyw asesiadau addysgol yn Saesneg - yr un fath ag ysgol Categori 5.
>
> Y disgwyliad ar gyfer ysgolion Categori 2 yw y byddai disgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, yr un fath â disgyblion ysgol Categori 1, gyda'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, yr un fath â disgyblion o ysgol gynradd Categori 5.

8.10 Mae'r cynnig a gyflwynwyd wedi cael eu nodi fel yr ateb gorau ar gyfer darparu addysg yn ardaloedd Llanfair DC a Phentrecelyn gan ei fod yn darparu ysgol a fyddai'n darparu addysg i ddisgyblion yn dewis iaith eu rhieni. Byddai hefyd yn darparu'r ardal â chyfleuster ysgol newydd maes o law.

8.11 gan fod ffrwd Gymraeg yn Ysgol Llanfair DC, mae hon yn darparu'r cwricwlwm yr un modd ag yn ysgol Categori 1. Ystyrir bod dynodiad yr ysgol newydd fel ysgol Categori 2 yn briodol gan y byddai'n cwrdd â'r cynnig a ddarperir ar hyn o bryd gan Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair DC. Mae'r cynnig addysgol, felly, yn diwallu anghenion y ddwy set o ddisgyblion i safon gyfatebol - sef yr hyn mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gofyn amdano.

8.12 Nid yw pob disgybl yn Ysgol Llanfair yn dechrau yn y ffrwd Gymraeg, mae'r ffordd mae Ysgol Llanfair yn darparu deilliannau Categori 2 yn llwyddiannus iawn. Dangosodd ffigurau o Chwefror 2015 o'r 103 o ddisgyblion; bod 76 o ddisgyblion (73.8%) yn y ffrwd Gymraeg a 27 o ddisgyblion (26.2%) yn y ffrwd Saesneg. Dechreuodd 18 (17.5%) o'r 76 disgybl yn y ffrwd Gymraeg yn y ffrwd Saesneg.

**Cludiant**

8.13 Mae gwrthwynebwyr wedi nodi bod rhai disgyblion Ysgol Pentrecelyn sy'n dewis mynychu ysgol Categori 1 arall efallai wedi eu gwahanu oherwydd polisi cludiant y Cyngor. Y Pennaeth Addysg sydd â’r pŵer i ddyfarnu cludiant dewisol a bydd unrhyw geisiadau o'r fath ar gyfer ysgol categori 1 yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos, o ddisgyblion presennol Ysgol Pentrecelyn am weddill eu haddysg gynradd.

## 9.0 Y galw am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion

9.1 Yn ardal Rhuthun mae darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, Cyfrwng Saesneg a Dwy Ffrwd. Mae canlyniadau ar gyfer pob categori iaith fel a ganlyn:

| Categori | Canlyniadau |
|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg (1) | Y disgwyliadau arferol yw bod disgyblion, waeth beth fo iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo’n hawdd i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 byddant wedi cyflawni safon cyfwerth mewn Saesneg i’r hyn a gyflawnir gan ddisgyblion mewn ysgolion sy’n gyfrwng Saesneg yn bennaf. |
| Cyfrwng Saesneg (5) | Y disgwyliad arferol yw y bydd disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ac yn parhau i ddysgu yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, gan ddysgu Cymraeg fel ail iaith. |
| Dwy Ffrwd | Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Gymraeg, disgwylir y byddant yng Nghategori 1. Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Saesneg, disgwylir y byddant yng nghategori 5. |

9.2 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu dull cytbwys o ddatblygu cynigion ar gyfer darpariaeth gynradd yn y dyfodol ar gyfer ardal Rhuthun. Bydd cynigion yn sicrhau bod yr ardal yn cadw darpariaeth Saesneg, Cymraeg a darpariaeth Ffydd mewn cymysgedd o leoliadau gwledig a threfol. Roedd yr ymgynghoriad anffurfiol yn cynnwys yr 11 ysgol a’r awdurdod esgobaethol.

9.3 Gallai'r cynnig gael effaith fach ar Ysgol Pen Barras ac Ysgol Bro Elwern – mae’r ddwy yn ysgol categori 1 a allai dderbyn rhai disgyblion o Ysgol Pentrecelyn, sy'n dymuno peidio â mynychu'r ysgol ardal. Mae ffigurau o fis Medi 2014 yn dangos fod 29 o leoedd dros ben yn Ysgol Pen Barras ac 13 yn Ysgol Bro Elwern- felly mae cyfanswm o 42 o leoedd.

9.4 Ar ddechrau Adolygiad Rhuthun roedd 28.8% o’r capasiti ar gyfer yr ardal yn cael ei ddarparu mewn ysgolion Categori 1. Mae gennym nifer o gynigion ar gyfer ardal Rhuthun, sef:

i) Uno Ysgol Cyffylliog ac Ysgol Clocaenog fel Ysgol Carreg Emlyn (gweithredwyd Medi 2014),

ii) Cau Ysgol Rhewl,
iii) Cau Ysgol Llanbedr ac
iv) Uno Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn i sefydlu ysgol ardal newydd.

Mae’r cynigion hyn ar gyfer ardal Rhuthun yn gyffredinol yn adlewyrchu angen i leihau’r capasiti cyffredinol yn yr ardal, gan gynnal yr amrywiaeth bresennol o ddarpariaeth, boed hynny mewn nifer llai o ysgolion. Mae’r cynigion yn sicrhau cydbwysedd o ran dewis iaith, ffydd, ysgolion tref a gwledig.

Pe byddai’r holl gynigion a restrir yn cael eu mabwysiadu, byddai cynnydd yng nghapasiti ysgolion Cyfrwng Cymraeg (Categori 1) o tua 17 o lefydd (34.4% o’r holl lefydd yn ardal Rhuthun) a lleihad o ran capasiti ysgolion dwy ffrwd (Categori 2) o 97 o leoedd yn ardal Rhuthun.

9.5 Mae disgwylir i fod ag effaith gyfyngedig yn y ddarpariaeth uwchradd yn yr ardal. Mae’r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn bwydo Ysgol Brynhyfryd fel y bydd yr ysgol ardal newydd.

## 10.0 Cyllid Addysg

10.1Ar hyn o bryd mae Ysgol Llanfair DC yn derbyn cyllideb o £4,296 fesul disgybl ac mae Ysgol Pentrecelyn yn derbyn cyllideb o £5,364 fesul disgybl, mae’r ddau yn uwch na chyfartaledd Sir Ddinbych o £3,931.

10.2 Y budd posibl i'r ysgol ardal newydd pan fyddant wedi'u cyfuno ar ddau safle, gan ystyried yr holl golledion, enillion yr arbedion cyllid posibl fydd £22,026. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn tybio y byddai’r lefel ariannu presennol yn parhau ac nad oes unrhyw newidiadau eraill yn digwydd yn yr ysgol, h.y. cynnydd/ gostyngiad yn nifer y disgyblion.

10.3 Unwaith y bydd yr ysgolion yn cael eu cyfuno, cyfran y gyllideb fesul disgybl fydd £4,274.

## 11.0 Ffactorau Cyffredinol Eraill

11.1 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae wedi nodi y bydd ychydig iawn o newid yn ystod y cam cyntaf pan fydd yr ysgol ardal newydd yn gweithredu o'r 2 safle presennol. Mae’r asesiad o effaith ar gydraddoldeb llawn yn Atodiad 4

11.2 Mae Ysgol Pentrecelyn ym mherchnogaeth rhydd-ddaliad Cyngor Sir Ddinbych. Mae Ysgol Llanfair DC yn eiddo yn rhannol i Gyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Llanelwy.

DRAFT

## 12.0 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

12.1 Wrth baratoi'r cynnig rhoddwyd ystyriaeth i ddewisiadau eraill:

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 1.1** | Cadw'r sefyllfa bresennol |
| **Opsiwn 1.2** | Cwblhau gwaith ehangu yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd |
| **Opsiwn 1.3** | Ehangu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ar safle newydd a chau Ysgol Pentrecelyn |
| **Opsiwn 1.4** | Cau'r ddwy ysgol a sefydlu ysgol ardal Dau Safle newydd parhaol ar y safleoedd presennol |
| **Opsiwn 1.5** | Cau'r ddwy Ysgol a sefydlu ysgol ardal ar ddau safle yn y lle cyntaf cyn adeiladu ysgol ardal newydd yn Llanfair |
| **Opsiwn 1.6** | Ffederaleiddio'r 2 ysgol |

12.2 Roedd manteision ac anfanteision pob opsiwn a ystyriwyd gan y Cyngor wedi'u manylu yn yr adroddiad ymgynghori.

12.3 Opsiwn 1.5 oedd yr opsiwn gorau o'i ystyried yn erbyn y buddsoddiad a'r ffactorau llwyddiant critigol.

12.4 Cafodd Opsiwn 1.6 o ffedereiddio ei ystyried yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae rheoliadau newydd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014 yn nodi "Nid oes gan ALlau na chyrff llywodraethu bwerau i ffedereiddio ysgolion gwirfoddol (a gynorthwyir ac a reolir) neu ysgolion sefydledig ag ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol a meithrinfeydd a gynhelir". Gyda hyn mewn cof nid yw ffedereiddio bellach yn opsiwn ymarferol ac mae'n rhaid ei diystyru.

## 13.0 Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r Gymuned

13.1 Defnyddiwyd y ffynonellau gwybodaeth canlynol defnyddio fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned;

- Holiaduron Asesu Effaith a ddychwelwyd gan benaethiaid y ddwy ysgol yr effeithir arnynt yn bennaf;
- Data CYBLD Ionawr 2013;
- Data ystadegol a gedwir gan Gyngor Sir Ddinbych;
- Gwybodaeth y Cyfrifiad;
- Cynllun Addysg Gymraeg Sir Ddinbych 2010-13;
- Ymatebion ymgynghoriad anffurfiol.

13.2 Er mwyn asesu'r effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol, rhoddwyd ystyriaeth i'r meysydd canlynol;

- Dynodiad ysgol;
- Cysylltiadau'r ysgol â'r gymuned leol;
- Yr effaith ar ysgolion cyfagos;
- Yr effaith ar rieni a theuluoedd;
- Goblygiadau teithio i ddisgyblion / rhieni;
- Yr effaith ar weithgareddau cymunedol;
- Yr effaith ar gyfleusterau cymunedol;
- Yr effaith ar ddemograffeg y gymuned.

13.3 I grynhoi; I ddechrau byddai'r cynnig yn cael effaith gyfyngedig ar deuluoedd a chymunedau lleol wrth ddefnyddio safleoedd yr ysgolion presennol yn y ddwy gymuned. Efallai y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion trwy ddarparu gwell addysg. Penderfyniad i'r pennaeth a'r Corff Llywodraethol i'w drafod a'i weithredu fydd sut caiff y safleoedd eu defnyddio. Opsiynau y gellid eu hystyried yw cadw'r disgyblion a'r staff fel y maent gyda mwy o gyfleoedd i'r 2 safle ddod at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau penodol. Byddai disgyblion yn elwa o ryngweithio gyda grŵp mwy o blant a grwpiau cyfoedion mawr.

13.4 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau lleol ac mae ganddo wasanaeth cynghori cyllid allanol i gynorthwyo cymunedau lleol i gael gafael ar gyllid ar gyfer prosiectau cymunedol.

13.5 Er mwyn asesu'r effaith bosibl ar y Gymraeg, rhoddwyd ystyriaeth i'r meysydd canlynol (fel y nodir yn y tabl isod):

- Iaith yr Ysgolion;
- Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Darpariaeth Addysg / safonau addysgol;
- Mynediad i ddarpariaeth anstatudol;
- Mynediad i weithgareddau cyn / ar ôl ysgol;
- Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

13.6 Dangosodd data o Gyfrifiad 2011 bod 44.1% o boblogaeth y 3 ward o Efenechtyd, Llanfair DC / Gwyddelwern a Rhuthun yn gallu siarad Cymraeg. Mae lledaeniad y siaradwyr Cymraeg yn gymharol gyfartal ar draws yr ardal lle mae'r 2 ysgol wedi eu lleoli.

13.7 I grynhoi, bydd y cynnig yn niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg. Hyd yn oed er y byddai'r cynnig yn lleihau faint o leoedd Categori 1 fydd yna yn yr ardal, credwn y gallai cynyddu'r cynnig dwy ffrwd sicrhau mwy o ddisgyblion yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Bydd disgyblion sy'n dewis cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn hollol ddwyieithog yn y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg wrth adael yr ysgol gynradd a bydd ganddynt werthfawrogiad o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

DRAFT

DRAFT